

Codi Sbwriel - Canllawiau Diogelwch



Offer

Mae'n bwysig eich bod yn cymryd rhan mewn sesiwn codi sbwriel mewn modd diogel. Mae'r fîm Carwch Eich Caerdydd yn argymhell eich bod yn defnyddio'r offer amddiffynnol canlynol.

- Gwasgod lachar
- Crafangau codi sbwriel
- Menig amddiffynnol
- Cylchau
- Bagiau bin a bagiau ailgylchu – mae gennym fagiâu pinc arbennig ar gyfer ein sesiynau codi sbwriel cymunedol
- Pecyn cymorth cyntaf
- Weips gwrthfacterol neu gel golchi dwylo

Canllawiau diogelwch:

Peidiwch â chodi deunyddiau peryglus. Mae'r rhain yn cynnwys **gwydr sydd wedi torri, nodwyddau, baw cŵn** ac **eitemau sydd wedi'u tipio'n anghyfreithlon**. Mae gan y Cyngor offer a staff cymwys i gasglu'r math hwn o sbwriel. Os gwelwch y mathau hyn o eitemau, rhowch wybod i Cyngor Caerdydd.

Defnyddiwch yr offer a ddarperir (**crafangau codi sbwriel / cylchau / menig**) – er eich diogelwch maen nhw. Peidiwch byth â chodi sbwriel gyda dwylo noeth, defnyddiwch grafanc codi sbwriel bob tro.

Rhaid gwisgo'r **wasgod lachar** a dillad addas a phriodol ar bob adeg. Gwisgwch esgidiau sy'n cau am eich traed a dillad sy'n addas rhag tywydd newidiol Caerdydd. Os bydd yn braf, gwisgwch ddilledyn â llewys, het, eli hael a chofiwch yfed digon o ddŵr.

Ewch â **phecyn cymorth cyntaf** a sicrhewch fod ffôn symudol â batri llawn wrth law rhag ofn y bydd argyfwng.

Peidiwch â chodi sbwriel mewn manau sy'n agos at traffig brysur neu gyflym.

Codwch sbwriel mewn ardaloedd wedi'u goleuo'n dda a lle bo gwelededd yn dda yn unig. Peidiwch â chodi sbwriel gyda'r nos.

Byddwch yn ofalus wrth godi sbwriel mewn ardaloedd â phlanhigion. Gallai'r tir fod yn anwastad a gall planhigion guddio peryglon.

Sicrhewch fod plant yn gwybod beth y maen nhw'n cael ei godi a beth i'w osgoi, ac nad ydyn nhw'n codi sbwriel yn rhy agos at ffyrdd.